# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd 2023 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (is-gadeirydd), Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Rita Jones, Meilir Jones, Alwyn Jones. Iolo V. Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Eifion Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Mynwentydd
i) Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri – roedd cais wedi cael ei anfon i mewn ar gyfer gwneud gwelliannau i'r fynwent yn Frongoch. Os byddai'r cais yn llwyddiannus cytunwyd fod y Clerc yn trafod gyda'r cadeirydd ac yna'n rhoi cyfarwyddiadau i'r contractwyr gychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosib.
ii) Mynwent Llanfor – roedd Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd wedi archwilio wal y fynwent ac wedi nodi yn y tymor hir byddai'n dda i dorri'r coed a oedd ger y wal gynnal ond cynghorwyd i gael y caniatad cywir gyntaf cyn gwneud hyn. Yn ddiweddarach cafwyd cadarnhad gan Adran Goed Cyngor Gwynedd nad oedd unrhyw TPO/CA ar y coed yma ond oherwydd gwerth diwyllianol y goeden ywen argymhellwyd i'r Cyngor gomisiynu arbenigwyr coed i wneud adroddiad. Cytunwyd i ddilyn eu cyngor a gofynnwyd i'r clerc i gysylltu â'r arbenigwr roedd Cyngor Gwynedd yn ei argymell i ofyn am bris i wneud adroddiad.
Roedd y clerc hefyd wedi derbyn cwynion am y coed ar ffin y fynwent ger Tŷ Hers, cytunodd rhai o'r cynghorwyr eu harchwilio ac i'r clerc gael pris ac unrhyw waith anghenrheidiol.

b) Damweiniau ar yr A494.
Yn dilyn y damweiniau diweddar ac amharodrwydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd i wneud gwelliannau cytunwyd yn unfrydol i drafod pryderon y Cyngor gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Cronfeydd Cefnogi Adfywio.
ii) Rhaglen Waith mis Gorffennaf yr Adran Priffyrdd.

b) Amrywiol.
i) Triathlon Bala.
ii) Arolwg Cysylltedd Cymru.
iii) Cadwch Gymru'n Daclus - Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
iv) Un Llais Cymru – Rheolau Sefydlog - gan fod camgymeriadau yn y templed roedd y clerc wedi ei dderbyn ym mis Mehefin cytunwyd i fabwysiadu'r fersiwn cywir.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd ceisiadau i'w trafod.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..

**vi) Materion Ariannol**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh).

ii) TWE.

iii) Printer newydd i'r Clerc (1/2 y gost gyda Chyngor Cymuned Llandderfel).

iv) Designer Signs (arwyddion y fynwent a'r toiledau - i'w talu pan fyddant wedi cael eu gosod)

c) Ceisiadau Ariannol.

i) Derbyniwyd cais gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Gwrychoedd ar hyd y ffordd o Gefnddwysarn i Gwm Main angen eu tocio.

ii) Tyllau yn y ffordd ger Blaen Cwm, Bethel a hefyd ger Llawrbetws Uchaf, Glanrafon.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 5ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..